# Cynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2024

# Mae Ymchwil yn Bwysig

## Galw am grynodebau ar gyfer trafodaethau dull TED

Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod pam mae ymchwil yn bwysig i chi. Rydym am weld y genhedlaeth newydd o ymchwilwyr yn ysbrydoli cydweithwyr, cynrychiolwyr y diwydiant ac aelodau'r cyhoedd gyda'u gweledigaeth ar gyfer dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn cyfrannu at sgwrs ar pam mae ymchwil yn bwysig nid yn unig yng Nghymru ond ar draws y byd cyfan.

**Dylai'r holl gyflwyniadau fynd i'r afael â thema'r gynhadledd 'Mae Ymchwil yn Bwysig' ac rydym yn croesawu'n arbennig y rhai sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd mewn ymchwil, ymchwil gofal cymdeithasol ac ymchwil iechyd menywod.**

## Canllawiau cyflwyno crynodeb

Ni ddylai'r testun crynodeb ar gyfer trafodaethau dull TED fod yn fwy na 250 o eiriau. Nid yw enwau a chysylltiadau'r awdur yn rhan o'r testun crynodeb ac nid ydynt yn cael eu cyfrif yn y terfyn geiriau.

Ar gyfer y digwyddiad hwn, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn crynodebau ar gyfer cyflwyniadau ar y pynciau hyn:

- Prosiectau a mentrau ymchwil gofal cymdeithasol a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Ymchwil sy'n canolbwyntio ar iechyd menywod
- Cynaliadwyedd mewn ymchwil

# Mae'r holl grynodebau i'w cyflwyno drwy ein ffurflen ar-lein.

# Rhaid i bob cyflwynydd cofrestru i ddod i'r gynhadledd.

## Amserlen ar gyfer cyflwyno crynodebau

| | |
|---|---|
| **25 Ebrill** | **Y galw am grynodebau yn agor** |
| **26 Gorffennaf** | **Cyflwyno'r crynodebau yn cau** |
| **5 Awst** | **Hysbysu ymgeiswyr o ran derbyn/gwrthod eu crynodeb** |

| | |
|---|---|
| **27 Medi** | **Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno deunyddiau ategol e.e. fideos, sleidiau** |
| **10 Hydref** | **Cynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2024** |

## Trafodaeth dull TED

Bydd disgwyl i chi gyflwyno trafodaeth dull TED sydd wedi dod yn gyfystyr â sgyrsiau effeithiol a diddorol sy'n swyno cynulleidfaoedd. Dilynwch y ddolen hon i ddarllen cyfarwyddiadau cam wrth gam ar sut i gyflwyno trafodaeth dull TED a argymhellir gan TEDX.

Bydd gennych **uchafswm o 10 munud** i gyflwyno eich trafodaeth.

Dylid creu deunyddiau gweledol mewn **fformat yn y gymhareb 16:9**.

Gallwch ddilyn y ddolen hon neu ymweld â'r wefan hon i ddarganfod mwy am sut i wneud y sleidiau siarad gorau dull TED.

Bydd sgrin gyda dewisiadau sain ar gael ar y diwrnod.

Bydd yr holl gyflwyniadau ar gael ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar ôl y digwyddiad. Os nad ydych am i'ch cyflwyniad gael ei rannu ar y wefan neu os yw'n cynnwys gwybodaeth freintiedig a hoffech ddarparu fersiwn ddiwygiedig ar gyfer y safle, e-bostiwch ymchwiliechydagofal@wales.nhs.uk.

## Broses ddethol crynodebau

Bydd pob crynodeb yn cael ei adolygu gan banel a fydd yn barnu pob cynnig ar ei berthnasedd i'r meysydd canlynol, gan ddefnyddio graddfa o 1-5, lle mae 5 yn ardderchog:

- Perthnasedd i thema'r gynhadledd sef 'Mae Ymchwil yn Bwysig'
- Y perthnasedd i ymchwil ac i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru – pwy wnaeth yr ymchwil, sut y daeth i fodolaeth, pwy a'i hariannodd, pwy oedd yn rhan ohono.
- Cynnwys y cyhoedd - a yw'r cyhoedd wedi cymryd rhan, sut mae'r cyhoedd wedi bod yn rhan ohono (cleifion, gofalwyr, defnyddwyr gwasanaeth ac ati)
- Bod ffocws y cynnig ar un o'r pynciau y gofynnwyd amdanynt: cynaliadwyedd, ymchwil gofal cymdeithasol neu ymchwil iechyd menywod

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu ar **5ed Awst 2024**.